Fairfax Meadow yn dechrau tynnu cynhyrchion cig yn ôl yn wirfoddol

Datgelodd yr arolygiadau dirybudd hynny bryderon am rai o'r gweithdrefnau a'r prosesau y mae'n cwmni yn eu defnyddio wrth roi dyddiadau 'defnyddio erbyn' (*use by*) ar rai o'i gynhyrchion.

Mae ein hadolygiad yn parhau i fynd rhagddo, ond mae'r cwmni wedi gweithredu'n briodol ac yn gymesur i dynnu'r cynhyrchion dan sylw oddi ar y farchnad yn gyflym.

Ymatebodd Fairfax Meadow i'n pryderon yn syth, ac maent nawr wrthi'n newid eu gweithdrefnau. Rydym ni'n fodlon â'r newidiadau sy'n cael eu gweithredu ac ar hyn o bryd, nid ydym yn rhagweld y bydd angen cymryd camau gorfodi.

Iechyd y cyhoedd yw ein prif flaenoriaeth o hyd, ac nid oes unrhyw arwydd wedi bod ar unrhyw adeg bod pobl wedi mynd yn sâl ar ôl bwyta cig sydd wedi'i gyflenwi gan Fairfax Meadow. Rydym ni, ynghyd ag awdurdodau lleol, yn parhau i asesu'r sefyllfa ac rydym yn gweithio gyda'r busnes i oruchwylio'r gwaith o dynnu'r cynhyrchion yn ôl.